

**COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR POLISI A CHYLLID, CYNGOR TREF
BAE COLWYN A GYNHALIWDYD O BELLTER (TRWY ZOOM), NOS FERCHER,
19^{EG} AWST 2020 AM 6.30 P.M.**

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd C. Hughes (Cadeirydd) (Gweler Cofnod 33/20)
Cynghorwyr N. Bastow (Maer), H. Fleet, D. Jones, M.A. Jones, T.
Pearson, P. Richards.

SWYDDOGION: Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref
Miss L. Austin, Swyddog Gweinyddol Cynorthwyol

32/20 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr D. Howcroft, A. Khan, H. Meredith a K. Swindon.

33/20 Ethol Cadeirydd ac Is- Gadeirydd am 2020/21:

Penderfynwyd ail-ethol y Cynghorydd C. Hughes yn Gadeirydd a'r Cynghorydd K. Swindon yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor am weddill y flwyddyn drefol 2020/21 .. .

34/20 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu gysylltiadau sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim:

35/20 Cofnodion:

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cywirdeb Cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 1^{af} Gorffennaf 2020.

36/20 Hyfforddiant ar Ffeiliau .pdf:

Derbyniodd yr Aelodau hyfforddiant gan y Swyddog Gweinyddol Cynorthwyol ar y defnydd o lyfrnodau a sut i anodi ffeiliau .pdf. Fe nodwyd bydd y Swyddog Gweinyddol Cynorthwyol yn anfon nodyn byr o gyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio meddalwedd Adobe ar gyfer Cyfrifiaduron Personol ag iPads yn y man..

37/20 Cyllid:

(a) *Penderfynwyd rhoi awdurdod am y taliadau a wnaed ar ran y Cyngor yn y cyfnod o 1/6/2020 hyd at 31/7/2020 sy'n ymddangos yn Atodiad 'A' sydd gyda hwn.*

(b) *Penderfynwyd rhoi awdurdod i'r Clerc anfon datganiadau banc at y Cadeirydd er mwyn gwirio / dilysu datganiadau cysoni'r banc fel yr oedd ar 31/7/2020.*

(c) Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, adroddiad ar incwm / gwariant am Chwarter 1 ynghyd ag adroddiad ysgrifenedig ar yr effaith a ragwelir ar gyllidebau 2020/21 gan Covid-19.

Fe nodwyd y byddai colled o ychydig o incwm o rent y swyddfa, llogi ystafelloedd, prisiau am wasanaethau a digwyddiadau. Fodd bynnag, fe fydd gostyngiad ar wariant am na fydd digwyddiadau angen cymorth ariannol oherwydd iddynt gael eu canslo neu

ohirio a hefyd bydd gostyngiad yng nghostau teithio, post a deunydd swyddfa, gan arwain at y posibilrwydd o arian dros ben o oddeutu £120,150.

Datganodd y Cadeirydd ei bryderon hefyd am yr effaith tebygol ar y Cyngor Sir gyda gostyngiad yn incwm treth cyngor a cholli incwm o wasanaethau megis canolfannau hamdden a meysydd parcio. Ar hyn o bryd mae hyn wedi arwain at ddiffyg ariannol o swm sy'n fwy na chwe ffigur yn y chwarter cyntaf.

Penderfynwyd nodi'r adroddiadau a disgwyl am ddiweddariad pellach gan y Clerc yn Nhachwedd.

ch) Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, Adroddiad y Farchnad am Fehefin 2020 oddi wrth CCLA.

Penderfynwyd derbyn yr ohebiaeth a'i nodi.

38/20 Llywodraeth Cymru:

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol i gael ei ystyried:

- a) Cyllido colled incwm Cyngorau Cymuned a Thref
- b) Y Strategaeth ar gyfer Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru a Strategaeth Asesu'r Amgylchedd - Adroddiad Amgylcheddol

Penderfynwyd derbyn a nodi'r ddwy ddogfen

39/20 Grŵp Swyddogion Strategaeth Byw yn y Bae:

Rhoddodd y Clerc adroddiad ar lafar am gyfarfod Grŵp Swyddogion Strategaeth Byw yn y Bae a gynhaliwyd ar 3^{ydd} Awst.

Bydd yr ymgynghoriad ar Leoedd Integredig ag Animeiddio yn cael ei lansio ym Medi, gyda'r posibilrwydd o weithredu system traffig un ffordd dros dro yn ystod y cyfnod chwe wythnos o ymgynghori. Cytunodd yr Aelodau bydd angen rhannu'r ymgynghoriad ymhell ac agos pan gaiff ei lansio.

Mae ymddiriedolaeth datblygu newydd yn bodoli ar gyfer 7 Ffordd Abergele ac mae'n bosibl bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn canol neu ddiwedd Medi. Mae cytundeb gwaith Judy Greenwood, Menter Treftadaeth y Tirlun, bron a dod i ben, ond ar hyn o bryd mae'n ceisio cymorth grant am bump o brosiectau eraill ar gyfer canol y dref. Mae hi'n gobeithio symud ymlaen a rhain cyn i'w chytundeb dod i ben.

Cafwyd trafodaeth gan yr Aelodau am y cyllid grant oedd ar gael ar gyfer adfer canol trefi yn dilyn Covid-19 ar anawsterau a wynebwyd am nad oedd fforymau busnes gweithredol yn y dref. Fe nodwyd bod y Siambr Fasnach yn poeni am y newidiadau i Ffordd yr Orsaf ac wedi gofyn am barcio ychwanegol ar safle hen Neuadd y Farchnad. Roedd y Cyngor Sir yn ceisio adfer hyder y cyhoedd ei bod yn ddiogel iddynt ddychwelyd i'r dref a chefnogi busnesau lleol. Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau ei bod wedi siarad gyda masnachwyr y farchnad yn y Farchnad Artisan newydd. Roeddynt yn hapus gyda'r fasnach hyd yn hyn a chytunodd yr Aelodau bod

angen i'r farchnad cydweithio gyda busnesau lleol i ddenu mwy o ymwelwyr i siopa i ganol y dref.

40/20 Is-Bwyllgorau:

Cyflwynodd y Clerc Cylch Gorchwyl yr Is-Bwyllgorau hynny sy'n adrodd i Bwyllgor Polisi a Chyllid i gael eu hystyried:

- a) Is-Bwyllgor Amwynderau
- b) Is-Bwyllgor Archwilio
- c) Is-Bwyllgor yr Adeiladau
- ch) Is-Bwyllgor Staffio

Wrth drafod y mater, gofynnodd yr Aelodau a oedd angen am yr Is-Bwyllgor Amwynderau bellach, oherwydd mae grantiau am ddigwyddiadau yn cael eu hystyried yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Polisi a Chyllid. Cytunodd yr Aelodau i ddirwyn yr Is-Bwyllgor Amwynderau i ben.

Trafododd yr Aelodau os oedd angen i gael aelod newydd i Is-Bwyllgor yr Adeiladau i gymryd lle Aelod nad yw ar hyn o bryd yn gallu mynychu cyfarfodydd. Cynigiwyd y Cynghorydd D. Jones i gymryd lle'r Cynghorydd H. Meredith ar Is-Bwyllgor yr Adeiladau.

Penderfynwyd ail-benodi'r Is-Bwyllgorau yn amodol ar y newidiadau uchod.

41/20 Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru (CCLIGChC):

Cyflwynodd y Clerc ymgynghoriad i gael ei ystyried oddi wrth CCLIGChC, ar leihau'r defnydd o blastig sy'n cael ei ddefnyddio unwaith yn unig. Roedd yr aelodau o'r farn y dylai'r Cyngor Tref ymateb i'r ymgynghoriad ar wahân, ac ychwanegu tamponau plastig a photiau plastig ar gyfer planhigion at y rhestr a ddarparwyd gan y Gymdeithas.

Penderfynwyd ymateb i'r ymgynghoriad gan ddefnyddio rhestr CCLIGChC ac ychwanegu'r eitemau a restrwyd. Fe benderfynwyd ymhellach i annog yr Aelodau i ymateb i'r ymgynghoriad fel unigolion.

42/20 Lwfansau Ward Aelodau Lleol:

Cyflwynodd y Clerc cynnig am brosiect i gael ei ystyried a dderbyniwyd oddi wrth::

- a) Cynghorydd M. Tasker - £300 tuag at Elusennau Hynafol Llandrillo yn Rhos

Penderfynwyd cymeradwyo'r cynnig a'i dalu.

43/20 Neuadd y Dref:

Cyflwynodd y Clerc amcan brisiau i'w ystyried ar gyfer

- a) **Trwsio landeri:** Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau, oherwydd cyfyngiadau Covid-19 ar gael mynediad i Neuadd y Dref a'r angen am arolwg manwl i gael amcan bris cywir o'r gwaith trwsio, un pris yn unig a dderbyniwyd am y gwaith

trwsio i'r landeri / to. Yn ddelfrydol dylai'r gwaith yma cael ei gwblhau cyn i'r tywydd gwaethygu.

Gofynnodd y Clerc i'r Aelodau gofio efallai bydd angen i gontractwyr eraill cynnal mwy o archwiliadau cyn iddynt allu cyflwyno amcan brisiau am y gwaith. Efallai byddai hyn yn golygu mwy o gostau oherwydd yr angen am fynediad i lefel uchel.

Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau bod ganddynt y dewis i ofyn i'r Cyngor hepgor y Rheoliad Ariannol sy'n gofyn bod angen tri amcan bris am waith o'r gwerth yma (dros £5,000), os ydynt o'r farn bod angen mor daer i wneud y gwaith fel buasai oedi pellach yn golygu costau ychwanegol o gael prisiau eraill. Buasai hyn yn cyfiawnhau'r posibilrwydd o osgoi hyn.

Mynegodd yr Aelodau eu pryderon mai un pris yn unig a gafwyd a thrafodwyd arolygiadau ar-lein y cwmni. Fe nodwyd bod y contractwr wedi cwblhau gwaith tebyg ar adeilad cyfagos a bod y Clerc wedi cael geirda ar lafar gyda'r person oedd yn gyfrifol, yn cadarnhau iddynt fod yn fodlon gyda'r gwaith a gwblhawyd.

Gofynnodd yr Aelodau os oedd y contractwr am osod landeri o'r un fath fel rhan o'r gwaith trwsio. Cadarnhaodd y Clerc, os oedd y Cyngor Tref am ddefnyddio deunydd arall, yna byddai'n rhaid cael Caniatâd Adeilad Rhestredig.

Penderfynwyd argymell, oherwydd y brys i wneud y gwaith trwsio, bod y Cyngor yn hepgor y Rheoliadau Ariannol sy'n gofyn bod angen am dri amcan bris a rhoi awdurdod i'r contractwr symud ymlaen efo'r gwaith trwsio'r landeri a'r to yn unol â'r manylion yn yr amcan bris a gyflwynwyd.

- b) **Addurno Allanol:** Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau ei bod yn dal i geisio amcan brisiau ychwanegol ar gyfer y gwaith addurno allanol. Ni thybiwyd bod gymaint o frys i wneud y gwaith yma,

Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau hefyd, os bydd y gost TAW ar yr holl wariant ar safle Ffordd Rhiw yn uwch na £7,000, ni all y Cyngor adennill unrhyw DAW ar unrhyw wariant sy'n berthnasol i'r adeiladau am yr holl flwyddyn ariannol. Felly, os caiff yr addurno allanol ei wneud cyn Ebrill 2021, ar ben y gwaith trwsio i'r boiler a thrwsio'r landeri, fe all cael oblygiadau sylweddol ar DAW. Os bydd y Cyngor yn dymuno symud ymlaen i wneud rhyw faint / yr holl waith addurno allanol cyn Ebrill nesaf, bydd y Clerc yn cael cyngor gan arbenigwr TAW Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. Efallai bod rhyw werth o rannu'r gwaith o addurno allanol dros ddwy flwyddyn ariannol i osgoi hyn.

Penderfynwyd argymell bod y Clerc i geisio tri amcan bris am y gwaith addurno allanol a chael cyngor ychwanegol ar oblygiadau posibl TAW.

44/20 Grantiau:

- a) Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, yr adroddiadau / gwerthusiad am y Grantiau Mawr yn 2019/20.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r adroddiad a'r ffurflenni gwerthuso.

- b) Cyflwynodd y Clerc cais i gael ei gyflwyno i gronfa gymunedol Gwynt y Môr am gyllid tuag at y gost o cerflun(iau) mawr o blastig a ailgylchwyd, i gymryd lle'r hen lwybr cerflun helyg. Byddai hwn yn brosiect ar y cyd gyda DYCHMYGU Bae Colwyn (nad yw'n gymwys i wneud cais yn ei enw ei hun am ei fod yn dod o dan ymbarél CBS Conwy) a Phwyllgor Colwyn yn ei Blodau'r Cyngor Tref, ac yn defnyddio cerflunydd proffesiynol i greu'r dyluniad(au) a gynhyrchwyd gan fyfyrwyr coleg lleol.

Cyfeiriodd Aelod at bryderon am amseriad y cais hwn, gan na allai myfyrwyr, efallai, helpu os byddai'r colegau yn mynd i gloi lawr ymhellach. Fe allai'r Cyngor cael cwynion os nad yw CBS Conwy yn cynnal y gwelyau blodau. Fodd bynnag, roedd Aelodau eraill o'r farn dylai'r coleg allu helpu, hyd yn oed os yw'n gweithredu mewn amgylchedd addysg ar-lein. Byddai'r prosiect nid yn unig yn annog ymwybyddiaeth o'r angen i leihau'r defnydd / ailgylchu plastig, ond bydd yn bywiogi a gwella'r dref hefyd. Hefyd, dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau bydd rhaglen DYCHMYGU yn dod i ben ar ddiwedd blwyddyn nesaf ac efallai fe gollir cyllid neu elfennau ohono megis hwn, os na chwblheir y gwaith erbyn hynny.

Penderfynwyd rhoi awdurdod i gais am gyllid cael ei gyflwyno i Gronfa Gymunedol Gwynt y Môr tuag at gost y cerflun(iau) mawr o blastig a ailgylchwyd

- 45/20** Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau bod Mark Roberts, cyn Cadeirydd Cronfa Ymddiriedolaeth Pier Victoria wedi gofyn i gael dod i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Polisi a Chyllid i roi diweddariad i'r Pwyllgor am weithgareddau codi arian yr Ymddiriedolaeth hyd yn hyn. Bydd yn gofyn hefyd am i'r gronfa a glustnodwyd yn flaenorol o £15,000 (o 2019/20) cael ei adfer, wrth ddisgwyl am gyflwyniad manwl o'r cynlluniau.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc gwahodd Mark Roberts i ddod i'r cyfarfod nesaf sydd i'w gynnal ar 30^{ain} Medi 2020.

- 46/20** Gofynnodd Aelod a yw'n dal i fod yn bosibl i aelodau o'r cyhoedd parhau i fynychu cyfarfodydd, rwan maent yn cael eu cynnal ar-lein. Cadarnhaodd y Clerc gall aelodau o'r cyhoedd wneud cais i gael cysylltu er mwyn cael bod yn bresennol mewn cyfarfod, a hefyd i wneud cais i siarad yr union fel sy'n digwydd mewn cyfarfod arferol yn Neuadd y Dref.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.55 p.m.

.....Cadeirydd

List of Payments made between 01/06/2020 and 31/07/2020

<u>Date Paid</u>	<u>Payee Name</u>	<u>Reference</u>	<u>Amount Paid</u>	<u>Authorized Ref</u>	<u>Transaction Detail</u>
01/06/2020	S Dawson - Chicago 1935	FP	500.00	I 010	CoVid Small Grant
04/06/2020	Barclay Card	DD	14.39	I 011	Zoom Subscription
05/06/2020	JDH Business Services Ltd	FP	543.84	I 011	Int Audit 19/20
05/06/2020	Snowdonia Fire Protection LTD	FP	42.00	I 011	Re-enable Devices in TH
05/06/2020	Planning Aid Wales	FP	150.00	I 011	Online Training
05/06/2020	Microshade Business Consultant	FP	127.78	I 011	IT Services
05/06/2020	I P Williams	FP	57.18	I 011	Translations
05/06/2020	Conwy County Borough Council	FP	736.00	I 011	NNDR THall
11/06/2020	Pitney Bowes	DD	71.82	I 012	Franking Machine Rental
15/06/2020	Employees	FP	5,147.42	I 012	Salaries June
15/06/2020	Cllr D Jones	FP	120.00	I 012	Basic Payment 2019-20
15/06/2020	Cllr Jeff Pearson	FP	120.00	I 012	Basic Payment
15/06/2020	HMRC	FP	1,659.15	I 012	Tax & PAYE
15/06/2020	Gwynedd Council	FP	1,580.79	I 012	Pensions Conts June
15/06/2020	Clerical Medical	FP	50.00	I 012	AVC's Clerk
15/06/2020	Microshade Business Consultant	FP	127.78	I 012	IT Services - May
19/06/2020	Soup n' Sox Van	FP	500.00	I 013	CoVid Small Grant
19/06/2020	Min y Don Bowling Club	FP	350.00	I 013	Small Grant
19/06/2020	C J Earley	FP	118.98	I 013	Reimbursement Office Furniture
19/06/2020	Conwy County Borough Council	FP	55,000.00	I 013	Theatr Colwyn Contribution
19/06/2020	British Gas	DD	15.54	I 013	Gas Town Hall May
19/06/2020	British Gas	DD	3,039.98	I 013	Electricity Rhiw Road Q1
19/06/2020	Fixed Term Deposit	TFR	25,000.00		
26/06/2020	OneCom	DD	61.51	I 013	Broadband / phones
01/07/2020	Conwy County Borough Council	FP	736.00	I 014	NNDR
01/07/2020	I P Williams	FP	444.42	I 014	Translations June
01/07/2020	Cais Ltd	FP	500.00	I 014	CoVid Grant Cais
01/07/2020	Canda Copying Ltd	SO	114.00	I 015	Lease Q1 photocopy
06/07/2020	Barclaycard	DD	24.39	I 015	Phone & Zoom Account
08/07/2020	Microshade Business Consultant	FP	127.78	I 015	IT Services July
08/07/2020	Hope House	FP	500.00	I 015	Small Grant Hope House
08/07/2020	Friends of Ysgol Llandrillo	FP	350.00	I 015	Small Grant
08/07/2020	Snowdonia Fire Protection LTD	FP	307.20	I 015	Emergency Light (CVSC & REAR)
08/07/2020	JW Jones	FP	691.28	I 015	Valve & Air Vent Repairs
08/07/2020	N W A T & L C C	FP	90.00	I 015	Membership
08/07/2020	Canda Copying Ltd	FP	0.72	I 015	Copy charges Q1
15/07/2020	Employers	FP	5,147.22	I 016	Salaries July
15/07/2020	HMRC	FP	1,599.35	I 016	PAYE & NI
15/07/2020	Gwynedd Council	FP	1,580.79	I 015	Pensions July
15/07/2020	Clerical Medical	FP	50.00	I 015	AVC's Clerk
28/07/2020	OneCom	DD	73.40	I 017	Phones/Broadband
30/07/2020	Conwy County Borough Council	FP	450.00	I 017	Bryn Euryn Plants (CIB)
30/07/2020	Ysgol Llandrillo yn Rhos	FP	900.00	I 017	Ward allow - DH/GB Rhos School
30/07/2020	Zurich Management Services	FP	4,247.11	I 017	Insurance Renewal
30/07/2020	Staples UK Ltd	DD	17.63	I 017	Ink

Total Payments	<u>113,085.45</u>
----------------	-------------------